OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 59

Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*3 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 59

The Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*3 March 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£6.40

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 59

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) (Diwygio) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026 ("Rheoliadau 2026") i gywiro dau groesgyfeiriad at Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("y Rheoliadau Asiantaethau").

Mae rheoliad 2(2) yn cywiro'r croesgyfeiriad yn y diffiniad o "panel mabwysiadu" yn rheoliad 2 o Reoliadau 2026 i gyfeirio at y ddarpariaeth berthnasol yn y Rheoliadau Asiantaethau. Mae rheoliad 2(3) yn cywiro croesgyfeiriad at y Rheoliadau Asiantaethau yn rheoliad 3(a)(ii) o Reoliadau 2026, fel bod y cyfeiriad yn gyfeiriad at y ddarpariaeth y mae'r dyfarniad ar ddiwedd yr adolygiad yn cael ei wneud odani.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2026 Rhif 59

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed	*3 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 9(1)(a) a 12(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**).

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) (Diwygio) 2026 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2026.

Diwygio Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026

2.—(1) Mae Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli), yn y diffiniad o "panel mabwysiadu", yn lle "rheoliad 3" rhodder "rheoliad 4".

(3) Yn rheoliad 3(a)(ii), yn lle "reoliad 30CH(2)" rhodder "reoliad 30CH(6)".

(**1**) 2002 p. 38. Diwygiwyd adran 12 gan adran 57 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31) a chan adran 34 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).
(**2**) O.S.C. 2026/31.

Dawn Bowden
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
3 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 59

SOCIAL CARE, WALES

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2026 ("the 2026 Regulations") to correct two cross-references to the Adoption Agencies (Wales) Regulations 2005 ("the Agencies Regulations").

Regulation 2(2) corrects the cross-reference within the definition of "adoption panel" in regulation 2 of the 2026 Regulations to refer to the relevant provision in the Agencies Regulations. Regulation 2(3) corrects a cross-reference to the Agencies Regulations in regulation 3(a)(ii) of the 2026 Regulations, so that the reference is a reference to the provision under which the determination at the conclusion of the review is made.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2026 No. 59

SOCIAL CARE, WALES

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

Made	*3 March 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 9(1)(a) and 12(1) of the Adoption and Children Act 2002(**1**).

Title and coming into force

1. The title of these Regulations is the Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) (Amendment) Regulations 2026 and they come into force on 1 April 2026.

Amendment to the Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2026

2.—(1) The Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2026(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 2 (interpretation), in the definition of "adoption panel", for "regulation 3" substitute "regulation 4".

(3) In regulation 3(a)(ii), for "regulation 30D(2)" substitute "regulation 30D(6)".

(**1**) 2002 c. 38. Section 12 was amended by section 57 of the Children Act 2004 (c. 31) and by section 34 of the Children and Young Persons Act 2008 (c. 23).
(**2**) W.S.I. 2026/31.

Dawn Bowden
Minister for Children and Social Care, under the authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
3 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839830-4

9 780348 398304